

Banciau bwyd, Syria, Haiti...

Na. Nid ein problem ni ydy Syria nage? Na Haiti, na thlodi dramor, na phobl ddigartref sy'n marw o oerfel ar strydoedd ein dinasoedd. Ac yn ôl be dw i'n ei weld ar y teledu ac yn fy mhapur dyddiol, dim ond rhoi arian i alluogi pobl antoesol a threiswyr yn enw elusen ydw i beth bynnag. Mae o'n ofnadwy, wrth gwrs. Ond... pan fo gymaint o angen ym Mhrydain does dim disgwyl i ni orfod cynorthwyo tlodion gwledydd eraill, nag oes?

Mae gen i lot o gydymdeimlad gyda'r gwleidyddion a'r papur newydd sy'n dweud y dyle ni dorri bob elusen a chymorth tramor. Mae digon o angen yma, yn does?

Prydain.

Un o wledydd cyfoethocaf y byd. Gwlad yn ôl rhai o'n harweinwyr sy'n rhy dlawd i fedru buddsoddi'n ddigonol mewn llywodraeth leol, yn y Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol, mewn addysg na gwarchod ein plant. Gwlad sydd wedi gweld gwasgu a chwtogi ar gyflogau am gyfnod hirach ac ar lefel ddwysach na chyfnod y Rhyfel Napoleonaid. Mae'n wir, ac mae'n rhyfeddol. Yma, yn un o wledydd cyfoethocaf y byd, oherwydd polisïau bwriadol cynni, mae yna deuluoedd heb arian, heb wres, na bwyd. Ac oni bai am elusennau fel y banciau bwyd, sy'n gweld mwy a mwy o alw am eu help, fyddai pethau'n waeth fyth.

Ond d'yn ni i gyd yn gorfod tynhau'n gwregys.

Yn ystod y cyfnod hwn o gynni ar Gymru mae nifer y biliwyddion wedi cynyddu. Yn ôl adroddiadau ym mis Mai 21017 mae nifer y biliwyddion ym Mhrydain wedi cynyddu'n sylweddol. Yn wir mae'r 500 cyfoethocaf ym Mhrydain bellach yn fwy cyfoethog na phe bai'r 1,000 sydd agosaf atynt yn crynhoi eu holl gyfoeth at ei gilydd.

Aa! Eiddigedd.

Nid eiddigedd ond anghyfartaledd.



Mynd heb siocled drwy'r Grawys?

Ond meddai'r Arglwydd

“Onid dyma'r dydd ympryd a ddewisais:

Tynnu ymaith rwymau anghyfiawn,

a llacio clymau'r iau,

gollwng yn rhydd y rhai a orthrymwyd,

a dryllio pob iau?

Onid rhannu dy fara gyda'r newynog,

a derbyn y tlawd digartref i'rh dŷ,

dilladu'r noeth pan y'i gweli,

a pheidio ag ymguddio rhag dy deulu dy hun?

Yna fe ddisgleiria d'oleuni fel y wawr,

a byddi'n ffynnu mewn iechyd yn fuan;

bydd dy gyfiawnder yn mynd o'rh flaen,

a gogoniant yr ARGLWYDD yn dy ddilyn.

Pan elwi, bydd yr ARGLWYDD yn ateb,

a phan waeddi, fe ddywed, 'Dyma fi.'”

Nid eiddigedd ond anghyfiawnder.

Mae 164 o biliwyddion a 4,000,000 o blant sy'n byw mewn tldi. Ac y mae dros 120,000 ohonynt heb gartref sefydlog i fyw ynddo.

Nid mater o 'dynhau'n gwregys gan fod pawb yn profi'r un amgylchiadau' yw'r neges i'w gredu. Peidiwch â'i gredu. Dydy o ddim yn wir!

A dydy o ddim yn wir na allwn ni wella ein gwasanaethau, ein buddsoddiad yn ein cymunedau a chynorthwyo dramor ar yr un pryd. Celwydd cyfrwys ydy hynny. Celwydd sy'n rheibio'r anghenus o'r cadachau sydd ar eu cefnau i'w defnyddio'n glytiau i sgleinio sgidia'r mwyaf rheibus.

Ond fe allwn ni weddio dros y tlawd.

Gallwn. Fe allwn ni weddio dros y tlawd.

Chwiliais yn fy Meibl am 'Weddi dros y tlawd a'r anghenus'. Fethais i â ffeindio un adnod o'r fath.

Ond fe ddes i o hyd i ddigon o enghreifftiau o gyfarwyddyd i ni newud rhywbeth i'w cynorthwyo. Nid mater o weddio yn unig yw anghyfiawnder. Ond mater o gyfiawnder ymarferol.

'Oherwydd y mae'r ffwl yn traethu ffolineb, a'i galon yn dyfeisio drygioni, i weithio annuwioldeb, i draethu celwydd am yr ARGLWYDD; y mae'n atal bwyd rhag y newynog, ac yn gwrthod diod i'r sychedig. Y mae cynllwyn y cnaf yn faleisus; y mae'n dyfeisio camwri i ddifetha'r tlawd trwy dwyll, a gwadu cyfiawnder i'r anghenus.

Eseia 32

Tybed beth a ddywed yr Arglwydd am ein Cymru ni?